TGAU

3010NA0-1

**DYDD GWENER, 10 IONAWR 2025 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du, neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

(Trowch y dudalen)

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn defnyddio coed a delweddau o goed er mwyn dweud eu neges.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol.**

**Dylech drafod:**

- **Cynnwys y cerddi yn fanwl;**
- **Nodweddion arddull a'r mesurau a ddefnyddir gan ystyried ydyn nhw'n effeithiol ac yn addas;**
- **Neges y cerddi;**
- **Eich ymateb personol i'r cerddi.**

**Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

(Trowch y dudalen)

# WALKERS' WOOD

**Bore hydrefol hyfryd oedd hi a Betws-y-Coed bron yn wag o ymwelwyr. Lliwiau gwych ar y coed, dim acenion main i'w clywed ar y llwybr – oedd, roedd hi'n foment farddonllyd. Ond yna, dyma'r bychan yn holi a dyma weld bod y fusutors wedi gwneud llanast o'r lle mewn mwy nag un ffordd. Dyna'r drwg efo'r diwydiant ymwelwyr – maen nhw'n dod yma gan ddyheu am baradwys ac yn mynd o'ma gan adael y lle'n stomp.**

**'Oes 'na enw ar y coed 'ma, Dad?**
**– I mi gael dweud y stori fawr wrth Taid.'**
**'Coed Llugwy ydi'r enw arnynt, was,**
**Ond Walkers' Wood sydd yn y Betws Guide.'**

**'Pam fod y dail ar hyd y ddaear, Dad?**
**Pam fod eu lliw run fath â crisps yn awr?'**
**'Mae popty'r hydref wedi'u rhostio, was,**
**A'u taenu'n wledd ar hyd y llawr.'**

**'Ble ddaeth hon, y ddeilen felen, Dad,**
**A dannedd mân ar hyd ei hymyl hi?'**
**'Mae'i chwiorydd ar y gollen acw, was,**
**Sy'n rhannu ei gofidiau gyda'r lli.'**

**(Trowch y dudalen)**

**‘A hon, run lliw â cheiniog newydd, Dad?’**
**‘Mae twll ym mhwrs y ffawydd, beryg iawn.’**
**‘A’r rhain, fel darnau o jig-sô ’ta, Dad?’**
**‘Y dderwen acw ydi’r llun yn llawn.’**

**‘Oddi ar pa goeden y daeth nacw, Dad?**
**Mae’n wyrdd a glas, mae’n sgleinio yn y mwd.’**
**‘Paced o Walkers’ Crisps ’di hwnna, was,**
**Ar ôl y rhai fu’n crwydro Walkers’ Wood.’**

**MYRDDIN AP DAFYDD**

**(Trowch y dudalen)**

# MEWN CARTRE HEN BOBL

Coed cam
Yn cwyno'u ffordd o gwpwrdd i gadair
Ac o wal i wely;
Rhy brennaidd i orwedd yn iawn.
Wedi gorwedd, rhy *gloëdig i godi.

Coed crin
A gollodd eu dail hydrefau yn ôl
Heb adar mwyach yn trydar o gangen i gangen
Nac yn hedfan o goeden i goeden.

*Boncyffion *crwm.

A fu hwn yn dalgryf?
A fu hon yn *llathraidd?
A fu bywyd yn *iraidd hyd flaenau'r bysedd?
Wedi lleithder sychder sydd
Mewn coed hen.

(Trowch y dudalen)

***Colfennau celyd**
**Yng nghlymau'r penliniau**
**A'r penelinoedd;**
***Cnotiau pren rhosyn yng ngherfiad wyneb**
**– Un ar bob boch –**
**Hen goed.**

**Celyn a derw a drain**
**Yn coedwigo'r cartre.**

**Coed cam.**

## J. EIRIAN DAVIES

**(Trowch y dudalen)**

## GEIRFA

cloëdig – wedi'u cloi neu glymu

boncyff – bôn/gwaelod coeden
crwm – crwn

llathraidd – hardd
iraidd – ffres, llawn bywyd

colfennau celyd – canghennau neu goed caled

cnotiau – clymau

**DIWEDD Y PAPUR**